

Cyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru
Dydd Mercher, 5 Chwefror 2020
10:30am i 12:00am
Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd
Cofnodion

AELODAU

Gweinidogion Llywodraeth Cymru

Julie James AC, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol – Cadeirydd
Hannah Blythyn AC, Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd (rhan)

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Cyngorydd Andrew Morgan (RCT)
Y Cyngorydd Anthony Hunt (Torfaen)
Y Cyngorydd Paul Miller (Sir Benfro)
Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn (Gwynedd)
Y Cyngorydd Rob Stewart (Abertawe)
Y Cyngorydd Peter Fox (Sir Fynwy)

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Peter Curran – Prif Swyddog Cyllid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLILC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLILC
Nigel Aurelius – Torfaen (Prif Swyddog Cyllid)

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol
Debra Carter – Pennaeth Cyllid Strategol Llywodraeth Leol
Simon Edwards – Cyllid a Phartneriaethau Gweithlu Llywodraeth Leol
Steffan Roberts – Cyllidebu Strategol, Trysorlys Cymru

YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorydd Mark Pritchard (Wrecsam)

Eitem 1 ar yr Agenda: Croeso a Chyflwyniadau

1. Croesawodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau i gyfarfod cyntaf yr Is-grŵp Cyllid yn 2020.

Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion a Materion sy'n Codi o'r Cyfarfod Blaenorol (Papur 1)

2. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.

Eitem 3 ar yr Agenda: Diweddariad gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

3. Rhoddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ddiweddariad ar Gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21, a diolchodd yn bersonol unwaith eto i CLILC am yr ymgysylltu cadarnhaol eleni.
4. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd fod pwyllgorau'r Senedd wedi bod yn craffu ar y cynlluniau gwariant drafft, a bod diddordeb brwd mewn buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol a'r newid yn yr hinsawdd, ac mewn gwasanaethau bysiau a digartrefedd.
5. Nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yr ansicrwydd ynghylch Cyllideb y DU a'r bwriad i'w chyflwyno ar 11 Mawrth, dros wythnos ar ôl i'r Senedd bleidleisio dros Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar 3 Mawrth. Serch hynny, eglurodd fod Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i chynlluniau i gyhoeddi'r Gyllideb Derfynol ar 25 Chwefror, er mwyn rhoi'r sicrwydd a'r sefydlogrwydd sydd eu hangen ar wasanaethau cyhoeddus, busnesau a chymunedau yng Nghymru.
6. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ei bod yn awyddus i adlewyrchu unrhyw newidiadau sylweddol i gynlluniau gwariant mewn Cyllideb Atodol Gyntaf gynnar ar gyfer 2020-21, ac i roi cymaint â sicrwydd â phosibl yn dilyn Cyllideb y DU ar 11 Mawrth. Amlinellodd ei safbwynt presennol na fyddai newid dyddiad cyhoeddi Cyllideb y DU yn newid y gwariant referniw yn sylweddol ond y gallai arwain at newidiadau i gyllideb cyfalaf.
7. Amlinellodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd nifer o ddarnau o waith ymchwil sy'n cael eu gwneud ar drethi lleol, gan gynnwys gwaith ar effaith y Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a gyhoeddwyd ar 9 Ionawr. Nod y gwaith ymchwil oedd llywio gwaith yn y dyfodol i ddatblygu cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor.
8. Amlinellodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y cynlluniau ar gyfer cyhoeddi ymchwil i effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent, dichonoldeb ymarferol treth gwerth tir leol ac effaith bosibl ailbrisio'r dreth gyngor, a allai fod o ddiddordeb i'r grŵp.
9. Hefyd, amlinellodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yr ymarfer darganfod digidol, a oedd yn edrych ar systemau budd-daliadau a referniw lleol (ceir manylion mewn papur i'w nodi).

10. Gwahoddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd aelodau'r Grŵp i awgrymu unrhyw agwedd ar y gwaith diwygio yr hoffent gael trafodaeth fanylach yn ei chylch.
11. Croesawodd y Gweinidog drafodaeth gychwynnol ar hyn.
12. Diolchodd y Cynghorydd Morgan i'r Gweinidogion am eu cymorth a'u tryloywder yn ystod y flwyddyn, hyd yn oed gyda'r cymhlethdod ychwanegol a grëwyd gan Lywodraeth Cymru, a dywedodd y byddai'n hoffi gweld y trafodaethau hynny'n parhau eleni pe bai Cymru'n cael mwy o gyllid drwy Gyllideb y DU. Dywedodd, pe bai Llywodraeth Cymru yn cael cynllun gwariant tair blynedd llawn, y byddai CLILC yn awyddus i weld Llywodraeth Cymru yn darparu setliadau aml-flwyddyn er mwyn helpu awdurdodau gyda'u gwaith cynllunio ariannol tymor canolog.
13. Gofynnodd y Cynghorydd Morgan hefyd a ellid cynnwys eitem ar gyllid 'pwysau'r gaeaf' mewn cyfarfod o'r Is-grŵp Cyllid yn yr haf, er mwyn rhoi amser i'r awdurdodau flaengynllunio ar gyfer y gaeaf.
14. Eglurodd y Gweinidog nad yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw gadarnhad gan Lywodraeth y DU ynghylch newidiadau i'r Gyllideb.
15. Hefyd, rhoddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd enghraifft o ddryswch ynghylch Gyllideb y DU, lle roedd Trysorlys y DU wedi cysylltu â swyddogion i ddweud y byddai Llywodraeth Cymru yn cael gwerth £100m o drafodion cyfalaf a gwerth £100m o gyfalaf negyddol cyffredinol canlyniadol yn ystod y flwyddyn. Felly, byddai angen ailbroffilio cyllid cyfalaf cyffredinol cyn yr ail Gyllideb Atodol.
16. Ymhelaethodd y Gweinidog ar gais y Cynghorydd Morgan am wybodaeth fwy amserol am grantiau drwy ddweud ei bod wedi gofyn i'r cabinet roi gwybodaeth am grantiau i randdeiliaid cyn gynted â phosibl yn benodol am y rheswm hwn. Dywedodd fod y tablau grantiau a ddarparwyd gyda'r setliad eleni wedi bod yn fwy cyflawn na'r rhai mewn blynnyddoedd blaenorol, ac y byddai'n gwahodd y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i siarad am hyn a'r cyllid ehangach ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.
17. **Cam Gweithredu – 'Pwysau'r gaeaf' i'w gynnwys ar agenda cyfarfod o'r Is-grŵp Cyllid yn y dyfodol.**
18. Dywedodd y Gweinidog, pe bai gan CLILC unrhyw awgrymiadau o ran gwaith ymchwil arall yr hoffai i ni ei gwneud, y byddai'n croesawu'r awgrymiadau hynny, er enghraifft ymchwil i'r ffaith nad yw pobl yn manteisio ar Gredyd Pensiwn yng Nghymru a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar yr economi sylfaenol.
19. Dywedodd y Cynghorydd Hunt y gallai CLILC roi gwybodaeth i Weinidogion am flaenoriaethau awdurdodau mewn perthynas â gwariant cyfalaf, er mwyn helpu i wneud unrhyw benderfyniadau sydd eu hangen.
20. **Cam Gweithredu – CLILC i roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am flaenoriaethau awdurdodau mewn perthynas â gwariant cyfalaf.**

21. Rhoddodd y Cynghorydd Morgan drosolwg o wasanaethau digartrefedd yn ei ardal a'r ffordd y maent yn newid er mwyn diwallu anghenion yn well. Rhoddodd y Cynghorydd Hunt a'r Cynghorydd Stewart enghreifftiau i egluro'r pwysau ychwanegol o ran costau y mae'r rhain yn eu rhoi ar wasanaethau.
22. Cododd y Cynghorydd Siencyn bwynt yn ymwneud â'r effaith y gallai symud ail gartrefi i'r rhestr ardrethu annomestig ei chael ar sylfaen drethu'r dreth gyngor.
23. Nododd y Gweinidog fod y mater wedi'i ystyried mewn manylder ac nad oedd unrhyw dystiolaeth hyd yma o achosion o restru eiddo'n anghywir. Gwahoddodd CLILC i ddarparu unrhyw dystiolaeth a oedd ganddi i lywio'r gwaith dadansoddi.
24. Gofynnodd y Cynghorydd Siencyn am gyfarfod i drafod y mater yn fanylach.
25. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n hapus i gwrdd.
26. **Cam Gweithredu – Y Cynghorydd Siencyn i ofyn am gyfarfod â'r Gweinidog.**

Eitem 4 ar yr Agenda: Diweddariad gan CLILC

27. Agorodd y Cynghorydd Hunt ddiweddariad CLILC drwy ddiolch i'r Gweinidogion am eu hymdriniaeth o'r setliad er gwaethaf blwyddyn anodd o ran pennu'r gyllideb. Trafododd y Cynghorydd y cais am derfyn isaf, canfyddiadau anghywir bod un setliad da yn gwneud iawn am flynyddoedd o gyni, cais am i is-grŵp gwariant gael ei sefydlu a'r posibilrwydd o setliadau aml-flwyddyn y dyfodol.
28. Eglurodd y Gweinidog ei bod yn deall y sefyllfa o ran y terfyn isaf, ond nad oedd rhagor o gyllid ar gael, felly pe bai un yn cael ei roi ar waith yna byddai'n rhaid iddo fod yn fecanwaith o daliadau wedi'u hailddosbarthu lle byddai'r rhai uwchlaw'r ganran waelodol yn ariannu'r rhai islaw'r ganran honno. Roedd yn awyddus i ddeall safbwyntiau CLILC am y ddau opsiwn hyn.
29. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn gyndyn i sefydlu grŵp arall ar ffurf is-grŵp gwariant, ac y byddai'n well ganddi neilltuo mwy o amser i'r Is-grŵp Cyllid ac ehangu cylch gwaith y grŵp hwnnw. Tynnodd sylw at y ffaith bod gwahodd aelodau eraill o'r cabinet i'r cyfarfod y llynedd wedi galluogi aelodau eraill o'r cabinet i wella'r achos dros gyllid i lywodraeth leol.
30. Dywedodd Dr Chris Llewelyn ei fod ar ddeall bod y cais am is-grŵp cyllid wedi cael ei wneud mewn cyfarfod swyddogion yn hytrach nag un gwleidyddol, ond y gellid adrodd ar waith unrhyw grŵp swyddogion i'r Is-grŵp Cyllid.
31. **Cam Gweithredu – Swyddogion i wahodd Gweinidogion eraill y Cabinet i gyfarfodydd yn y dyfodol.**
32. O ran setliad aml-flwyddyn, roedd y Gweinidog yn barod i ystyried y posibilrwydd ond roedd yn awyddus i bwylo nes bod rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â'r hyn y byddai cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol llywodraeth y DU yn ei olygu.

33. Dywedodd y Gweinidog y byddai ei swyddogion yn cyflwyno briff technegol i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg er mwyn gwella dealltwriaeth o'r setliad, a chynigiodd y dylid darparu'r briff hwn i'r grŵp pe bai'n gofyn am hynny. Dywedodd hefyd y byddai'n hoffi gweld CLILC yn cymryd rhan yn y sesiwn er mwyn sicrhau bod neges gyson yn cael ei lledaenu.
34. **Cam Gweithredu – Cynnwys swyddogion CLILC yn y briff technegol i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.**
35. Adleisiodd y Cynghorydd Fox y sylwadau hyd yma a mynegodd ei bryderon am y fformiwla gan ddweud bod yr amrywiad o 2.4% rhwng y setliadau isaf ac uchaf eleni yn rhy eithafol. Mae awdurdodau Gogledd Cymru wedi mynegi teimladau tebyg gan ddweud nad yw cynnydd o 3% yn ddigon i fynd i'r afael â'r pwysau.
36. Eglurodd y Gweinidog ei bod yn cydymdeimlo â'r awdurdodau hynny â'r setliadau isaf, ond dywedodd mai'r unig ffordd y gellid darparu terfyn isaf fyddai drwy aildosbarthu'r setliadau presennol, ond y byddai hynny hefyd yn golygu bod rhai awdurdodau ar eu hennill a rhai ar eu colled.
37. Ychwanegodd y Cynghorydd Fox fod angen gwneud rhywfaint o waith mewnol er mwyn deall yr hyn y mae'r setliad yn ei wneud yn ei awdurdod, a chael dealltwriaeth well o'r hyn a fyddai'n digwydd i'w awdurdod pe bai deng mlynedd arall o gyni, ac a fyddai hyn yn gynaliadwy.

Eitem 5 ar yr Agenda: Rhaglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu

38. Estynnodd y Gweinidog wahoddiad i Simon Edwards gyflwyno rhaglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu ar gyfer 2020.
39. Cyflwynodd y swyddog raglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu drwy egluro mai nod yr adran fyrdymor yw diweddarau'r dangosyddion er mwyn sicrhau bod y fformiwla'n parhau'n berthnasol, tra bod yr adran strategol yn ystyried y gwaith hirdymor o ddatblygu'r fformiwla ar gyfer meysydd fel addysg a gwastraff.
40. Pwysleisiodd Reg Kilpatrick bwysigrwydd y ddogfen hon sy'n rhoi dealltwriaeth i'r grŵp o'r hyn a all newid yn ystod y flwyddyn, gan sicrhau bod y grŵp yn deall goblygiadau ariannol posibl y newidiadau hyn.
41. Ymhelaethodd y Gweinidog ar hyn drwy atgoffa'r grŵp am y camau dampio a gymerwyd y llynedd i sicrhau na fyddai'r newidiadau i'r data poblogaeth yn cael effeithiau anghymesur iawn. Cadarnhaodd fod y mecanweithiau hyn yn bosibl os bydd angen eu rhoi ar waith eto eleni. Hefyd, rhoddodd enghraifft o ddosbarthiad y Grant Cymorth Tai, sef grant mawr y mae ei ddosbarthiad wedi cael ei bennu'n hanesyddol, er nad yw'n rhan o'r Grant Cynnal Refeniw. Gallai unrhyw newidiadau i'w ddosbarthiad nawr achosi newidiadau na ellid eu rheoli mewn cyllid rhwng awdurdodau.
42. Dywedodd y Cynghorydd Siencyn mai'r broblem o ran y fformiwla yw ei bod yn anodd ei deall, ac mai diben yr Is-grŵp Dosbarthu yw adlewyrchu'r ffeithiau o ran y rhesymau dros yr hyn a ddyrannwyd i bob awdurdod.

43. Ychwanegodd Jon Rae fod yr Is-grŵp Dosbarthu wedi gwneud gwaith i wella dealltwriaeth o'r newidiadau. Ychwanegodd fod y ffordd y mae'r fformiwla'n gweithio a'r ffactorau sy'n arwain at newidiadau i ddyraniadau yn cael eu hegluro i Drysoryddion. Dim ond awgrym y mae'r tabl yn adroddiad yr Is-grŵp Dosbarthu yn ei roi, ond gall ffactorau eraill effeithio ar hyn.
44. Cwestiynodd y Cynghorydd Clement-Williams safle gofal cymdeithasol o fewn y fformiwla a sut y gallwn wybod bod y fformiwla yn gwneud yr hyn y dylai fod yn ei wneud.
45. Dywedodd y Gweinidog y byddai hyn yn ddarn da o waith i'w wneud er mwyn ymgymryd ag enghraifft bywyd go iawn.
46. **Cam Gweithredu – Swyddogion i ystyried ar y cyd â'r Is-grŵp Dosbarthu pa waith y gellid ei wneud.**
47. Trafododd y Cynghorydd Morgan y cydbwysedd rhwng cyfrifoldeb byrddau iechyd ac awdurdodau lleol am gynnal pecynnau gofal.
48. Mynegodd y Gweinidog ei hymrwymiad parhaus i wahodd aelodau eraill o'r cabinet sy'n darparu cyllid i lywodraeth leol i'r grŵp er mwyn eu galluogi i glywed yn bersonol am y pwysau y mae llywodraeth leol yn eu hwynebu.

Eitem 6 ar yr Agenda: Diweddariad gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau

49. Estynnodd y Gweinidog wahoddiad i Peter Curran roi diweddariad.
50. Tynnodd y swyddog sylw at gymhlethdod setliad yr heddlu eleni, a'r cynnydd o 7.5% yn y cyllid ar gyfer y flwyddyn. Roedd y cynnydd hwn yn cynnwys y cyllid i recriwtio 6,000 o swyddogion newydd yng Nghymru a Lloegr fel rhan o ymrwymiad y DU i benodi 20,000 o swyddogion ychwanegol.
51. Eglurodd y swyddog fod panel yr heddlu a throseddau wedi cytuno ar gynnydd o 5.9% yn y praesept ar gyfer Heddlu De Cymru, a oedd yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng y cyllid yr oedd ei angen a'r gost ychwanegol i drethdalwyr.
52. Diolchodd y Gweinidog i'r swyddog am y diweddariad a thynnodd sylw at yr anawsterau o ran y ffaith bod setliad yr heddlu yn tybio llawer o bethau sy'n berthnasol i Loegr nad ydynt yn berthnasol i Gymru.
53. Daeth y Gweinidog â'r cyfarfod i ben drwy ofyn am i gyfarfod cynharach gael ei drefnu ar ôl gwyliau'r Pasg.
54. **Cam Gweithredu - Swyddogion i drefnu cyfarfodydd ychwanegol a datblygu rhaglen waith ar gyfer yr Is-grŵp Cyllid ar gyfer 2020 a rhannu'r manylion â'r grŵp.**